Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

# Darganfod eich rôl ym maes Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol'

## Cynllun Gweithredu ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd 2025 - 2029

# Cynnwys


Darganfod eich rôl mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol ..... 3

Darganfod eich rôl 1.0 ..... 3

Datblygu Darganfod eich rôl 2.0 ..... 4

Cyflawni Darganfod Eich Rôl 2.0 ..... 7

Cynllun Gweithredu ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd 2025 – 2029 ..... 8

- Maes ffocws 1: Adnoddau ..... 8
- Maes ffocws 2: Cynhwysiant ..... 9
- Maes ffocws 3: Cefnogaeth a dysgu parhaus ar gyfer cyfranwyr cyhoeddus ..... 10
- Maes ffocws 4: Cyfleoedd hygyrch – helpu i lunio ymchwil ..... 12
- Maes ffocws 5: Taliadau a rhwystrau gweinyddol ..... 13
- Maes ffocws 6: Effaith ..... 14
- Maes ffocws 7: Gwerthuso Darganfod Eich Rôl ..... 15

# Darganfod eich rôl ym maes ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol

Bob wythnos, mae cannoedd o bobl yn cyfrannu at ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, sy'n hanfodol ar gyfer canfod triniaethau newydd a gwella gwasanaethau. Mae'r ymchwil hon yn dibynnu ar gefnogaeth y cyhoedd, p'un ai trwy gymryd rhan mewn astudiaethau neu drwy rannu profiadau personol i lywio blaenoriaethau ymchwil, dylunio a chyflawni—cyfeirir at hyn fel cynnwys y cyhoedd.

Mae llawer o astudiaethau eisoes yn cynnwys ffyrdd o gynnwys y cyhoedd, sydd, o'i wneud yn iawn, yn arwain at ymchwil sy'n fwy perthnasol a dealladwy ac sy'n darparu profiad gwell i'r rhai sy'n cymryd rhan. Mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn aml yn magu hyder, yn meithrin perthnasoedd a chyfeillgarwch cadarnhaol ac yn dysgu sgiliau newydd. Fodd bynnag, pan fo cynnwys y cyhoedd yn cael ei wneud yn wael, pan na fydd rolau'n glir a chyfathrebu'n wael, gall arwain at brofiadau negyddol.

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi ymrwymo i wneud cynnwys y cyhoedd yn rhan hanfodol o'r broses ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol, gan gydnabod ei bod yn bwysig, yn ddisgwyliedig ac yn bosibl ym mhob math o waith ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym wedi ymuno â'r 'Ymrwymiad a Rennir i Gynnwys y Cyhoedd' gyda sefydliadau eraill y DU fel ymdrech ar y cyd i wella maint ac ansawdd cynnwys y cyhoedd ar draws y sector fel ei bod yn wastad yn ardderchog. Ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, mae hyn yn golygu sicrhau bod gan y cyhoedd lais ynglŷn â sut mae Gwaith ymchwil yn cael ei flaenoriaethu a'i gyllido; sut mae'n cael ei ddylunio a'i gynnal; a sut mae ei effaith yn cael ei chofnodi a'i chyfleu. Mae ein cynllun strategol 'Mae ymchwil yn bwysig' yn atgyfnerthu pwysigrwydd cynnwys y cyhoedd i arfer ymchwil da, ac mae'n amlinellu bwriad i barhau i gefnogi a datblygu dulliau cynnwys y cyhoedd trwy adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd drwy'r Cynllun Gweithredu – Gwaith Ymchwil ym Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Darganfod Eich Rôl.

Rydym yn falch o'r cynnydd gwych sydd eisoes yn cael ei wneud gan gyfranwyr cyhoeddus, ymchwilwyr ac eraill sy'n ymwneud â'n cymuned. Mae eu hymdrechion wedi helpu i wella cynnwys y cyhoedd mewn gwaith ymchwil ledled Cymru ac wedi llunio trafodaethau cenedlaethol, megis Safonau'r DU ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd a chanllawiau ar dalu cyfranwyr cyhoeddus. Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod llawer mwy i'w wneud o hyd.

## Darganfod Eich Rôl 1.0

Yn 2020, cyflwynodd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'r fenter Darganfod Eich Rôl mewn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol, cynllun gweithredu i hybu cynnwys y

cyhoedd mewn ymchwil. Cafodd ei gyd-ddylunio gyda mewnbwn gan y cyhoedd, ymchwilwyr a gweinyddwyr ymchwil, gan ganolbwyntio ar saith maes allweddol ar gyfer gweithgaredd, sefydlu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer cynnwys y cyhoedd a chamau gweithredu ymarferol ar gyfer gwella ansawdd a maint cynnwys y cyhoedd. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae cyfranwyr cyhoeddus ac ymchwilwyr wedi gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â rhwystrau a datblygu atebion ar draws yr holl feysydd a nodwyd ar gyfer gweithredu.

Mae rhai llwyddiannau allweddol yn cynnwys:

### Cyd-ddylunio a chyflwyno'r strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd:

Cafodd yr ymgyrch "Ble fyddem ni heb ymchwil," a oedd yn rhan o'r strategaeth, ei datblygu a'i chyflwyno ar y cyd gyda chyfranwyr ac ymchwilwyr cyhoeddus, gan godi ymwybyddiaeth o rôl hanfodol gwaith ymchwil wrth wella iechyd a gofal cymdeithasol. Mewn ymateb, bu cynnydd o 30% o aelodau cyhoeddus yn ein cymuned, gyda chyfanswm y cyfranwyr cyhoeddus yn 650 ar hyn o bryd.

### Effaith adrodd straeon a thracio effaith:

Mae grwpiau ymchwil bellach yn cynnwys straeon cymryd rhan a thystiolaeth o effaith yn eu hadroddiadau blynyddol, gan sicrhau bod cyfraniadau cyhoeddus yn cael eu cydnabod a'u dathlu. Datblygwyd dros 30 o straeon ymchwil i hyrwyddo'r effaith hon, gyda 3459 o edrychiadau ar ein tudalen ymgyrchu.

### Fforwm Ymgysylltu a Chynnwys y Cyhoedd:

Mae lefelau ymgysylltu uchel cyson yn ein fforwm ymgysylltu a chynnwys y cyhoedd wedi darparu llwyfan ar gyfer rhannu arferion gorau, meithrin cydweithredu ac ysgogi cynnydd o ran cynnwys y cyhoedd.

## Datblygu Darganfod eich Rôl 2.0

Yn ystod dechrau 2024, gwnaethom ddefnyddio Fforwm Ymgysylltu a Chynnwys y Cyhoedd i fyfyrio gydag ymchwilwyr a chyfranwyr cyhoeddus ar yr hyn a gyflawnwyd fel rhan o weithredu'r Cynllun Gweithredu Darganfod Eich Rôl a'r hyn oedd angen sylw o hyd. Gan ddefnyddio'r sesiynau ymgysylltu hyn, cytunwyd ar broses ar gyfer cyd-ddylunio fersiwn nesaf Cynllun Gweithredu Darganfod Eich Rôl, gan gynnwys:

1. Dysgu o Darganfod Eich Rôl 1.0 i nodi heriau parhaus.
2. Ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud yn aml a'r rhai sydd â llai o brofiad.
3. Ymgymryd â phroses gyd-ddylunio newydd i adeiladu cytundeb ar y cyd ar y dyheadau a'r camau penodol y dylid mynd i'r afael â nhw mewn cynllun gweithredu newydd.
4. Ymgynghori â'r gymuned ar y cynllun drafft newydd.

Fe wnaethom drefnu cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu cymunedol ledled Cymru, gan ddod â mwy na 180 o fynychwyr ynghyd. Roedd y digwyddiadau hyn yn llwyfan ar gyfer trafodaethau agored, cydweithredu a rhannu syniadau, gyda'r nod o nodi atebion ymarferol ac effeithiol i'r heriau sy'n wynebu'r cyhoedd. Roedd y mewnwelediadau a'r safbwyntiau gwerthfawr a gasglwyd yn ystod y sesiynau hyn yn chwarae rhan hanfodol wrth lunio drafft cychwynnol ein cynllun gweithredu Darganfod Eich Rôl.

Cafodd y cynllun gweithredu drafft hwn ei ddarparu ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Medi 2024 a mis Ionawr 2025. Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom ofyn am adborth gan ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys aelodau o'r gymuned, gweithwyr proffesiynol ac ymchwilwyr. Fe wnaeth y broses ymgynghori ein helpu i fireinio a chryfhau'r cynllun gweithredu, gan arwain at ddatblygu ail fersiwn fwy cynhwysfawr a gweithredadwy.

Drwy'r broses gyd-ddylunio hon, daeth cyfres glir o egwyddorion i'r amlwg a ddylai arwain ein dull o ymgysylltu a chynnwys y cyhoedd yng Nghymru yn y dyfodol:

- Ymwreiddio cynnwys y cyhoedd fel rhan arferol a derbyniedig o'r cylch ymchwil.
- Sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer cynnwys y cyhoedd yn hygyrch, yn gynhwysol ac yn syml.
- Dyrannu adnoddau priodol i gefnogi cynnwys y cyhoedd, ochr yn ochr â hyfforddiant cynhwysfawr ar gael i ymchwilwyr a chyfranwyr cyhoeddus.
- Gwella cyfathrebu ac ymgysylltu drwy rannu straeon ac astudiaethau achos sy'n tynnu sylw at rôl hanfodol y cyhoedd mewn gwaith ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol.

O'r broses gydweithredol hon, fe wnaethom ddatblygu 15 datganiad problemau, a gafodd eu blaenoriaethu wedyn drwy arolwg ar-lein a oedd yn cynnwys dros 80 o aelodau cyhoeddus ac ymchwilwyr. Roedd yr ymdrech hon yn ein galluogi i gyfyngu ein ffocws i saith maes ffocws allweddol ar gyfer y Cynllun Gweithredu Darganfod Eich Rôl newydd:

## 1. Adnoddau

a. Dim digon o arian ar gyfer gweithgareddau cynnwys y cyhoedd.
b. Diffyg amser wedi'i neilltuo ar gyfer datblygu gweithgareddau cynnwys y cyhoedd.

## 2. Cynhwysiant

a. Anhawster cynnwys grwpiau sy’n cael eu tan-wasanaethu gydag amser ac adnoddau cyfyngedig.

## 3. Cyfleoedd cynnwys – Cefnogaeth a datblygiad parhaus i gyfranwyr cyhoeddus

a. Mae cyfleoedd cynnwys y cyhoedd yn aml yn gofyn am brofiad blaenorol, ac yn eithrio newydd-ddyfodiaid gyda phwyslais ar wneud y broses yn hawdd i'r rhai sy'n cynnig y cyfleoedd yn hytrach na darparu mynediad cynhwysol i gyfranwyr cyhoeddus.
b. Mae angen mwy o gefnogaeth a chyfleoedd datblygu sgiliau ar gyfer cyfranwyr cyhoeddus, megis cadeirio cyfarfodydd, i bwysleisio’r budd i bawb wrth gymryd rhan.

## 4. Cyfleoedd / Hygyrchedd - Helpu i lunio ymchwil

a. Mae'r broses ar gyfer dod o hyd i gyfleoedd cymryd rhan a gwneud cais amdanynt yn ailadroddus ac yn cymryd llawer o amser.
b. Anhawster dod o hyd i restr gynhwysfawr o'r cyfleoedd sydd ar gael.

## 5. Taliadau

a. Prosesau talu cymhleth sy'n annog pobl i beidio â chymryd rhan.
b. Yn aml, mae manylion yn brin ar anfonebau, gan ei gwneud hi'n anodd i gyfranwyr cyhoeddus reoli cyllid.

## 6. Effaith

a. Mae cyfathrebu gwael parhaus gan dimau astudio yn golygu nad yw cyfranwyr cyhoeddus yn ymwybodol o ganlyniadau ac yn colli cyfleoedd i ddangos effaith.
b. Nid yw'n glir sut mae ymchwil yn effeithio ar wasanaethau Cymru, a rôl cynnwys y cyhoedd wrth hwyluso ymchwil da, effeithiol.

## 7. Gwerthuso Darganfod Eich Rôl

a. Effaith gyffredinol Darganfod Eich Rôl a gweithio i gynllun ar y cyd i wella Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd yng Nghymru. Sut i fonitro a chofnodi hyn.

# Cyflawni Darganfod Eich Rôl 2.0

Gyda'r mewnwelediadau a gasglwyd o'n digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned a'n proses ymgynghori, rydym wedi datblygu cynllun gweithredu cynhwysfawr Darganfod Eich Rôl 2.0. Mae'r cynllun hwn yn nodi'r meysydd a'r gweithgareddau ffocws allweddol sydd eu hangen i drawsnewid ein huchelgeisiau a rennir yn newid ystyrlon, parhaol. Trwy ymgorffori safbwyntiau amrywiol a phrofiadau bywyd, mae'r cynllun yn sicrhau bod cynnwys y cyhoedd yn parhau i fod yn rhan ganolog o ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Nawr bod y cam ymgynghori wedi'i gwblhau, rydym wedi cwblhau'r cynllun gweithredu gyda **saith** maes ffocws a **naw** cam gweithredu allweddol. Yn ogystal, mae'r cynllun yn cydnabod set o gamau eilaidd ar gyfer rhai meysydd ffocws. Mae'r rhain yn weithgareddau a all gefnogi ein meysydd ffocws ymhellach ond a wneir pan fo amser ac adnoddau'n caniatáu.
Byddwn yn creu Grŵp Goruchwylio Prosiect i fonitro a gwerthuso Darganfod Eich Rôl. Bydd y grŵp hwn yn gyfrifol am asesu canlyniadau ac effaith pob maes ffocws, gan ddarparu cyfeiriad strategol, a sicrhau llwyddiant cyffredinol Darganfod Eich Rôl. Byddwn hefyd yn ailymgynnull Fforwm Ymgysylltu a Chynnwys y Cyhoedd bob pedwar mis. Bydd y fforwm hwn yn llwyfan allweddol ar gyfer:

- Rhannu diweddariadau ar weithgareddau Darganfod Eich Rôl, sicrhau tryloywder a chynorthwyo cyfathrebu parhaus.
- Darparu cyfleoedd i'r gymuned sy'n cynnwys y cyhoedd gynnig mewnbwn pellach, gan helpu i fireinio a llunio ein dull gweithredu.
- Hwyluso cyfnewid arferion gorau, caniatáu i randdeiliaid ddysgu oddi wrth ei gilydd ac adeiladu arbenigedd ar y cyd.

Y tu hwnt i Gymru, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gydweithio â'n partneriaid yn y DU, gan rannu ein cynnydd, cyfnewid mewnwelediadau a dysgu o brofiadau pobl eraill. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â mentrau fel Learning for Involvement sy'n cefnogi dysgu parhaus a mabwysiadu arferion ymgysylltu cyhoeddus effeithiol.

Er mwyn sicrhau safon uchel o gynnwys y cyhoedd ar draws pob maes ffocws, bydd 'Safonau'r DU ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd yn gwasanaethu fel y fframwaith arweiniol ar gyfer y cynllun gweithredu hwn. Bydd y safonau hyn yn llywio ein dull gweithredu, gan sicrhau bod pob gweithred yn cyd-fynd ag arferion gorau ac yn cael eu gwerthuso trwy lens cynhwysiant, tryloywder a chyfranogiad ystyrlon.

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i feithrin cymuned ymarfer fywiog, un sy'n annog deialog barhaus, sy'n hwyluso cydweithredu ac yn hyrwyddo rhannu arferion gorau. Gan adeiladu ar fomentwm yr hyn yr ydym

eisoes wedi'i gyflawni, nod y cam nesaf hwn o Ddarganfod Eich Rôl yw ymgorffori cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd fel rhan sylfaenol o ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru.

# Cynllun Gweithredu ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd 2025 – 2029

## Maes ffocws 1: Adnoddau

Mae heriau mewn gweithgareddau cynnwys y cyhoedd yn aml yn deillio o gyfyngiadau mewn amser ac adnoddau. Pan nad eir i'r afael â'r cyfyngiadau hyn, gall cynnwys y cyhoedd ddod yn symbolaidd, sy'n golygu nad oes ganddo ddyfnder ac nad yw'n dylanwadu'n effeithiol ar wneud penderfyniadau.

Er mwyn datblygu a chyflawni cynnwys y cyhoedd ystyrlon, mae dull creadigol a chydweithredol yn hanfodol. Mae hyn yn cynnwys dysgu oddi wrth ei gilydd, rhannu a chyfuno adnoddau, ac eirioli dros gydnabyddiaeth briodol o'r costau sy'n gysylltiedig â chynnwys y cyhoedd a chleifion.

Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn archwilio strategaethau a modelau creadigol i wella'r defnydd o adnoddau cyfredol a ddyrennir i gynnwys y cyhoedd a chasglu a rhannu gwybodaeth am dimau cynnwys y cyhoedd ac adnoddau presennol i wella cydweithredu ac effeithiolrwydd.

## Camau gweithredu

| Camau Gweithredu â Blaenoriaeth | Disgrifiad | Allbwn disgwyliedig | Amserlen |
|---|---|---|---|
| Creu grŵp gorchwyl a gorffen i lunio argymhellion ar weithredu modelau ariannu cynaliadwy ar gyfer cynnwys y cyhoedd | Dod ag arbenigedd o Gymru ac o'r DU yn ehangach ynghyd (gan gynnwys arweinwyr Cynnwys y Cyhoedd a chyfranwyr cyhoeddus) i ystyried enghreifftiau cyfredol o fodelau ariannu cynaliadwy ar gyfer cynnwys y cyhoedd mewn lleoliadau prifysgol (yn y lle cyntaf) a'r potensial i'w gweithredu ledled Cymru | Adroddiad gydag argymhellion clir | Tachwedd 2025 |

Camau ychwanegol i gryfhau cydweithio a rhannu adnoddau wrth gynnwys y cyhoedd:

1. Creu a chynnal cronfa ddata o'r holl arweinwyr cynnwys y cyhoedd yng Nghymru, gan gynnwys y rhai o sefydliadau allanol. Bydd hyn yn hwyluso cydweithio a rhannu adnoddau pan fo cyllid yn gyfyngedig.
2. Annog cydweithio ymhlith y gymuned a ariennir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru: Hyrwyddo cydweithio ymhlith cymunedau a ariennir drwy ei gwneud yn ofynnol i dimau rannu adnoddau a gwybodaeth fel amod aelodaeth yn ein Cynghrair Cynnwys y Cyhoedd.
3. Datblygu rhaglen hyfforddi flynyddol sy'n tynnu sylw at hyfforddiant cynnwys y cyhoedd sy'n bodoli eisoes, gan sicrhau ei bod yn cael ei chyfeirio a'i chyfleu'n well i ymchwilwyr sy'n ceisio cynnwys cyfranwyr cyhoeddus yn effeithiol yn eu hymchwil.

## Maes ffocws 2: Cynhwysiant

Mae cynnwys cymunedau sy'n cael eu tan-wasanaethu ac ymgysylltu â nhw yn effeithiol wrth gynnwys y cyhoedd yn gofyn am amser, ymdrech, a dull strwythuredig iawn. Rydym yn defnyddio'r term "tan-wasanaethu" fel y'i diffinnir gan NIHR INCLUDE, sydd wedi ymchwilio'n ofalus i'r derminoleg fwyaf priodol a'i hystyr. Heb strategaeth glir ar gyfer cynnwys, gellir eithrio'r grwpiau hyn yn anfwriadol, gan arwain at ddiffyg safbwyntiau amrywiol mewn ymchwil a gwneud penderfyniadau.

Yn ogystal, mae meithrin ymddiriedaeth a chysylltiadau cryf â chymunedau sydd wedi'u tan-wasanaethu yn cymryd amser a chysondeb, a gallai terfynau amser ymchwil tynn eu rhwystro. Mae diffyg hyfforddiant arbenigol ar arferion cynhwysol a'r angen am gymorth wedi'i deilwra yn cymhlethu ymdrechion pellach i ymgysylltu â'r grwpiau hyn yn ystyrlon. Heb yr offer, y strategaethau a'r hyfforddiant cywir, mae perygl i ymchwil golli mewnwelediadau gwerthfawr gan gymunedau sydd yn aml y rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan y materion sy'n cael eu hastudio.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, byddwn yn datblygu ac yn gweithredu cynlluniau cynaliadwy, pecynnau cymorth a hyfforddiant i gynnwys grwpiau sy'n cael eu tan-wasanaethu mewn ymchwil trwy allgymorth wedi'i dargedu, partneriaethau cymunedol, a chefnogaeth gan y Grŵp Cynghori ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI), gan sicrhau cynnwys a chynrychiolaeth ystyrlon a chyson.

## Camau Gweithredu:

| Camau Gweithredu â Blaenoriaeth | Disgrifiad | Allbwn disgwyliedig | Amserlen |
|---|---|---|---|
| Datblygu a threialu cynllun ariannu o fewn y Gronfa Galluogi Cynnwys i hwyluso cefnogaeth cynnwys y cyhoedd ar gyfer ymchwilwyr cyfatebol a chymunedau sy'n cael eu tan-wasanaethu | Defnyddio'r Gronfa Galluogi Cynnwys a chymorth cynnwys y cyhoedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i ddarparu adnoddau ariannol ac ymarferol, gan gynorthwyo ymchwilwyr i ddylunio a chyflwyno gweithgareddau cynnwys gyda chymunedau sy'n cael eu tan-wasanaethu yng Nghymru | Galwad am lansio cynllun treialu | Medi 2025 |
| Ffurfio gweithgor, gan gynnwys aelodau o'n Grŵp Cynghori ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI), i gyd-greu hyfforddiant/pecyn cymorth i gefnogi ymchwilwyr i ystyried materion ac ymgysylltu'n gynhwysol er mwyn cymryd rhan mewn astudiaethau | Nodi ffyrdd o gynnwys cymunedau sy'n cael eu tan-wasanaethu mewn ymchwil, creu canllawiau arfer gorau, a sefydlu dull strwythuredig ar gyfer cynnwys ystyrlon. Adeiladu ar ganllawiau cynghreiriaeth ac ymgorffori mewnwelediadau o waith ar y cyd gyda NIHR mewn dogfen Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Cydweithio â grŵp cynghori a sefydliadau cymunedol EDI i ddarparu hyfforddiant cynhwysol a pherthnasol. | Datblygu pecyn cymorth. Lansio hyfforddiant cynhwysiant | Medi 2026 |

Camau ychwanegol i gefnogi cynnwys cynhwysol:

- Parhau â chynllun allgymorth cymunedol gan dîm cynnwys y cyhoedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i ymgysylltu â grwpiau sy'n cael eu tan-wasanaethu, gan gynnwys canllawiau negeseuon clir, a fframwaith cynhwysol ar gyfer cynllunio a gwerthuso digwyddiadau a mesur gwerth.

## Maes ffocws 3: Cefnogaeth a dysgu parhaus ar gyfer cyfranwyr cyhoeddus

Mae gofyn am brofiad blaenorol ar gyfer cyfleoedd cynnwys y cyhoedd yn creu rhwystr i aelodau mwy newydd, gan gyfyngu ar amrywiaeth safbwyntiau mewn

ymchwil a gwneud penderfyniadau. Heb fannau mynediad hygyrch, mae llawer o bobl a allent fod yn cynnig mewnwelediadau gwerthfawr wedi'u heithrio. Yn ogystal, mae angen rhoi mwy o gyfleoedd i aelodau cyhoeddus ddatblygu eu sgiliau eu hunain, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn ystyrlon a sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed. Mae cyfleoedd cymryd rhan yn aml yn canolbwyntio ar sut y gall ymchwilwyr elwa ar amser a phrofiadau bywyd cyfranwyr cyhoeddus, ond nid yw'r system bresennol bob amser yn darparu digon o gyfleoedd i feithrin sgiliau, a all ei gwneud hi'n anoddach i gyfranwyr cyhoeddus gymryd rhan mewn ymchwil a gwneud penderfyniadau. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, dylem ganolbwyntio ar greu ac ehangu cyfleoedd dysgu a mentoriaeth sy'n cefnogi cyfranwyr cyhoeddus i adeiladu'r sgiliau y maen nhw eisiau eu cael er mwyn iddynt allu elwa ar fod yn rhan o weithgareddau cynnwys y cyhoedd.

## Camau gweithredu:

| Camau Gweithredu â Blaenoriaeth | Disgrifiad | Allbwn disgwyliedig | Amserlen |
|---|---|---|---|
| Datblygu rhaglen hyfforddi flynyddol sy'n cynnig cyfleoedd dysgu a datblygu i gefnogi cyfranwyr cyhoeddus wrth lunio ymchwil. Bydd yr hyfforddiant hwn yn ddewisol. | Adolygu a diweddaru'r system gymorth gyfredol i aelodau cyhoeddus er mwyn mapio gweithgareddau ac adnoddau sydd ar gael a sefydlu fframwaith dysgu gwell ar gyfer cynnwys y cyhoedd.<br><br>Datblygu cynllun i wella hyfforddiant a mentoriaeth gan ganolbwyntio ar ddatblygu ar gyfer cyfranwyr cyhoeddus a hyrwyddo datblygiad parhaus. Bydd mewnwelediadau gan sefydliadau eraill a mentrau cymunedol a ariennir yn cael eu hymgorffori i rannu adnoddau gwerthfawr ac arferion gorau. | Calendr hyfforddi strwythuredig sy'n ymdrin â phynciau allweddol sy'n berthnasol i gyfranwyr cyhoeddus.<br><br>Darparu chwe gweithdy hyfforddi, seminarau, a modiwlau ar-lein, fesul blwyddyn. | Mawrth 2026 |

## Maes ffocws 4: Cyfleoedd hygyrch – helpu i lunio ymchwil

Mae'r broses bresennol o gymryd rhan mewn ymchwil yn aml yn ailadroddus ac yn cymryd llawer o amser, a all achosi rhwystredigaeth i'r rhai sydd â diddordeb. Yn aml mae'n anodd dod o hyd i restr gyflawn o gyfleoedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru sydd ar gael, gan ei gwneud hi'n anodd i bobl wybod sut i gymryd rhan. O ganlyniad, efallai y bydd cyfranwyr cyhoeddus posibl yn teimlo eu bod wedi'u gorlethu neu eu digalonni, gan arwain at lai o ymgysylltiad ac ystod lai amrywiol o leisiau mewn ymchwil. Mae symleiddio'r broses, cael gwared ar rwystrau diangen, a gwella mynediad at gyfleoedd yn gamau hanfodol wrth gynyddu cynnwys y cyhoedd ystyrlon.

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, byddwn yn symleiddio'r broses ymgeisio i arbed amser a lleihau ailadrodd. Byddwn hefyd yn creu rhestr glir, hygyrch o gyfleoedd, gan ei gwneud yn haws i bobl ganfod a chefnogi cynnwys y cyhoedd ym maes ymchwil.

## Camau gweithredu:

| **Camau Gweithredu â Blaenoriaeth** | **Disgrifiad** | **Allbwn disgwyliedig** | **Amserlen** |
|---|---|---|---|
| Tîm cynnwys y cyhoedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i gynnal adolygiad o'r broses bresennol o gyfleoedd i gynnwys y cyhoedd a gweithredu newidiadau i symleiddio'r trefniadau. | Adolygu cyfleoedd i nodi'r angen am brofiad blaenorol a symleiddio'r broses ymgeisio trwy symleiddio ffurflenni, lleihau’r cymhlethdod, cyflwyno opsiynau awtolanw a gofyn am wybodaeth hanfodol yn unig.<br><br>Creu rhestr glir, hygyrch o gyfleoedd, gan ei gwneud hi'n haws i bobl ddod o hyd iddi.<br><br>Ceisio mewnbwn gan arweinwyr cynnwys y cyhoedd a chyfranwyr cyhoeddus i sicrhau bod newidiadau arfaethedig yn briodol cyn eu gweithredu. | Ffurflenni cais mwy hygyrch, effeithlon a symlach | Rhagfyr 2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhannu cyfleoedd wedi'u targedu â chyfranwyr cyhoeddus yn seiliedig ar eu diddordebau iechyd a gofal cymdeithasol penodol, gan rannu cyfleoedd perthnasol â’r rhai sydd wedi mynegi diddordeb yn y pynciau hynny. | Cyflwyno ffurflen gais ymchwilydd newydd i nodi pynciau iechyd. Casglu meysydd o ddiddordeb oddi wrth gyfranwyr cyhoeddus a datblygu proses awtomatig i baru cyfleoedd newydd â'r rhai sydd wedi mynegi diddordeb, gan sicrhau dull mwy teilwredig yn hytrach nag un cyffredinol. | Negeseuon e-bost wedi'u teilwra ar gyfer cyfranwyr cyhoeddus, yn eu gwahodd i wneud cais am gyfleoedd ymchwil | Mawrth 2026 |

Camau gweithredu ychwanegol i gefnogi gwella hygyrchedd cyfleoedd cynnwys y cyhoedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru:

1. Darparu sesiynau hyfforddi ac eglurhad ar fideo i dywys ymgeiswyr drwy'r broses o wneud cais ar gyfer cynnwys y cyhoedd.

## Maes ffocws 5: Taliadau a rhwystrau gweinyddol

Rydym yn cydnabod bod llywio taliadau wrth gydymffurfio â Chyllid a Thollau EF (CThEF) a'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn gymhleth, gan greu rhwystrau gweinyddol sy'n rhwystro cynnwys y cyhoedd ystyrlon ym maes ymchwil. I helpu, rydym yn cynnig cymorth i gyfranwyr cyhoeddus gael mynediad at gyngor dinasyddion a budd-daliadau, er nad yw’r gwasanaeth hwn ond ar gael i'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau.

Gall y prosesau talu cymhleth hyn gymryd llawer o amser gan ei gwneud yn anodd i ymchwilwyr a chyfranwyr cyhoeddus eu rheoli, gan arwain at rwystredigaeth a dryswch o bosibl. Gall yr heriau hyn wneud i bobl beidio â chymryd rhan, yn enwedig ymhlith y rhai a allai fod yn ei chael hi'n anodd llywio drwy'r prosesau. Er ein bod wrthi'n gweithio gyda'n cydweithwyr yn y DU i ddod o hyd i atebion, mae'n bwysig nodi na all Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ddatrys hyn ar ei ben ei hun.

## Camau gweithredu:

| **Camau Gweithredu â Blaenoriaeth** | **Disgrifiad** | **Allbwn disgwyliedig** | **Amserlen** |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Creu a darparu hyfforddiant ar gyfer y cyhoedd ac arweinwyr cyllid ar daliadau amserol i gyfranwyr cyhoeddus a'r gwahaniaethau rhwng cynnwys y cyhoedd a chyflogaeth. | Mewn cydweithrediad â chydweithwyr yn y DU, mae dylunio, datblygu a chyflwyno sesiynau hyfforddi ar gyfer arweinwyr cynnwys y cyhoedd a chyllid sefydliadau yn arwain at dynnu sylw at bwysigrwydd taliadau amserol i gyfranwyr cyhoeddus ac egluro'n glir y gwahaniaethau rhwng cynnwys y cyhoedd a chyflogaeth. | Rhannu dogfennau talu hawdd eu darllen.<br><br>Datblygu deunyddiau ar gyfer cyflwyno hyfforddiant (sleidiau, canllawiau, astudiaethau achos). | Rhagfyr 2026 |

Camau ychwanegol i gefnogi’r gwaith o fynd i'r afael â'r rhwystrau taliadau ar gyfer talu cyfranwyr cyhoeddus

1. Datblygu strategaeth gliriach ar gyfer gweithio gyda phrifysgolion, gan gydweithio ag arweinwyr cyllid drwy'r grŵp cynghrair cynnwys y cyhoedd i oresgyn rhwystrau taliadau i gyfranwyr cyhoeddus.

## Maes ffocws 6: Effaith

Mae cyfranwyr cyhoeddus yn chwarae rhan hanfodol wrth wneud ymchwil yn fwy perthnasol i'r rhai yr effeithir arnynt gan y cyflyrau sy'n cael eu hastudio neu'n defnyddio'r gwasanaethau yr ymchwilir iddynt. Mae eu cynnwys yn sicrhau bod yr ymchwil yn mynd i'r afael â phryderon y byd go iawn a bod ganddi fwy o siawns o gynhyrchu canlyniadau effeithiol. Fodd bynnag, heb ddiweddariadau clir gan ymchwilwyr, efallai y byddant yn teimlo wedi'u datgysylltu ac yn cwestiynu gwerth eu cyfraniadau, gan leihau ymgysylltiad yn y dyfodol.

Er mwyn helpu i ddangos effaith cynnwys y cyhoedd, rydym yn cynnig sefydlu sianeli cyfathrebu cadarn rhwng timau astudio a chyfranwyr cyhoeddus i sicrhau ymgysylltiad parhaus a diweddariadau clir ar ganlyniadau astudio i ganfod a yw eu cynnwys wedi dylanwadu ar yr ymchwil ai peidio.

## Camau gweithredu:

| **Camau Gweithredu â Blaenoriaeth** | **Disgrifiad** | **Allbwn disgwyliedig** | **Amserlen** |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Diffinio gofynion a dulliau i sicrhau bod ymgysylltu parhaus gan dimau astudio yn cael ei gyfleu i gyfranwyr cyhoeddus ar adegau allweddol yn ystod datblygu a chyflawni ymchwil. | Datblygu a chynnal canllaw a chronfa ddata fanwl i dracio a dogfennu effaith cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil, ar yr astudiaeth ac ar yr unigolion eu hunain. Yn ogystal, diffinio ac egluro beth sy'n cael eu hystyried yn weithgareddau effaith cynnwys y cyhoedd. | Astudiaethau achos<br><br>Dogfennau canllawiau ac arferion gorau<br><br>Adroddiadau effaith<br><br>Canllawiau clir ar y ffyrdd y mae cyfranwyr cyhoeddus yn llunio ac yn dylanwadu ar ymchwil. | Cyflwyno/ymgynghori ar y gofynion Mehefin 2025 - adrodd ar effaith haf 2026 yn unol ag adroddiadau blynyddol |

Gweithgareddau ychwanegol i gefnogi'r gwaith o asesu effaith cynnwys y cyhoedd:

1. Gan adeiladu ar y prosesau adrodd a sefydlwyd yn y fenter Darganfod Eich Rôl gychwynnol, byddwn yn sefydlu system orfodol i ddal a rhannu effaith ymchwil a chynnwys y cyhoedd, gan arddangos enghreifftiau trwy allgymorth ac ymgysylltiad i dynnu sylw at werth cyfraniadau cyhoeddus ar gyfer ysgogi canlyniadau ystyrlon.

## Maes ffocws 7: Gwerthuso Darganfod eich Rôl

Pwrpas datblygu cynllun gweithredu Darganfod Eich Rôl yw creu cydweithredu a gweithredu ar y cyd i wella maint ac ansawdd cynnwys y cyhoedd ar draws y sector fel ei fod yn ardderchog yn gyson. Heb ddealltwriaeth glir o sut mae'r gweithgareddau a gynigir yn benodol yn creu canlyniadau sy'n newid cynnwys y cyhoedd, mae'n anodd mesur llwyddiant ac effeithiolrwydd. Pan nad yw'r canlyniadau a'r effaith wedi'u diffinio'n glir na'u tracio, mae'n dod yn heriol i ddangos sut mae cynnwys y cyhoedd yn cyfrannu at newid ystyrlon. Gallai'r ansicrwydd hwn leihau cefnogaeth i ymdrechion cynnwys y cyhoedd a'i gwneud yn anoddach sicrhau adnoddau neu ymrwymiad i brosiectau yn y dyfodol.

Rydym yn cynnig gweithredu fframwaith gwerthuso i asesu effeithiolrwydd ac effaith y fenter Darganfod Eich Rôl. Bydd y fframwaith hwn yn cynnwys datblygu meini prawf gwerthuso penodol i ddiffinio canlyniadau, mesur llwyddiant a phenderfynu beth yw'r effaith. Bydd hyn yn sicrhau goruchwyliaeth barhaus ac yn darparu adborth gwerthfawr ac yn dangos gwerth cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil.

## Camau gweithredu:

| Camau Gweithredu â Blaenoriaeth | Disgrifiad | Allbwn disgwyliedig | Amserlen |
|---|---|---|---|
| Sefydlu Grŵp Goruchwylio Prosiect i werthuso effaith ac effeithiolrwydd Darganfod Eich Rôl 2.0. | Gweithredu fframwaith gwerthuso i asesu effeithiolrwydd ac effaith y fenter Darganfod Eich Rôl.<br>Datblygu meini prawf gwerthuso penodol i fesur llwyddiant a phenderfynu beth yw effaith y fenter.<br>Sicrhau trosolwg parhaus trwy asesiadau rheolaidd.<br>Rhoi adborth gwerthfawr er mwyn gwella'r fenter. | Fframwaith gwerthuso cynhwysfawr<br>Meini prawf gwerthuso wedi'u diffinio<br>Adborth ac argymhellion y gellir eu gweithredu | Medi 2025 |